Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr

Y myth Ni allwch daflu losin at y gynulleidfa mewn panto

Y gwirionedd Beiwyd rheolau iechyd a diogelwch pan ddaeth yr arferiad o daflu losin at y gynulleidfa mewn panto i ben. Poeni am gost unrhyw iawndal pe bai rhywun yn cael i anafu yr oeddent mewn gwirionedd.

Os ydych yn ansicr ynghylch gweithgaredd rydych yn ei drefnu, efallai yr hoffech drafod â'ch yswiriwr i sicrhau bod gennych yr yswiriant cywir a'ch bod wedi rheoli unrhyw risgiau yn effeithiol. Gall fod yn werthfawr sicrhau nad yw mân risgiau yn peri gormod o ofid.

Mewn gwirionedd, mae'r tebygolrwydd o rywun yn cael ei frifo'n ddifrifol wrth i losin gael ei daflu mewn panto yn fach iawn. Yn sicr, nid yw'n rhywbeth y mae HSE yn poeni amdano - ein hateb ni yw, 'O, cewch fe gewch!'